# Cofrestr Newidiadau

# Materion sy'n Codi

# Mapiau Cynigion

Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd & Môn 2011—2026

Ionawr

## 1. Yr Ymgynghoriad Cyhoeddus am y Newidiadau Materion sy'n Codi (NMC)

1.1 Bydd yr ymgynghoriad am y Gofrestr Newidiadau Materion sy'n Codi yn parhau am gyfnod o 6 wythnos, gan gychwyn ar **ddydd Gwener 23ain Ionawr 2017** a gorffen am **hanner nos dydd Iau 9fed Mawrth 2017.** Gallir gweld y Gofrestr Newidiadau Materion sy'n Codi mewn llyfrgelloedd cyhoeddus, Siop Gwynedd (Caernarfon, Pwllheli & Dolgellau), prif swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni, swyddfeydd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn ym Mangor, ac ar wefannau'r Cynghorau (gweler paragraff 3.1).

1.2 Pwrpas yr ymgynghoriad ydi:

- Rhoi cyfle i'r cyhoedd a phartïon sydd â diddordeb i gyflwyno sylwadau am y Newidiadau Materion sy'n Codi; a
- Galluogi'r Arolygwyr i fod yn hyderus bod pawb yr effeithir arnynt wedi cael y cyfle i wneud sylwadau cyn y cwblheir yr Adroddiad am yr Archwiliad.

1.3 Mae'r sylwadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod adeg y camau 'Adnau' a 'Newidiadau â Ffocws' eisoes wedi cael eu hystyried gan yr Arolygwyr fel rhan o'r Archwiliad. **Dim ond** sylwadau am y **'Newidiadau Materion sy'n Codi'** a welir yn y gofrestr sy'n dilyn gallir eu gwneud ar y cam yma.

1.4 Nid yw'r ymgynghoriad hwn felly yn gyfle i ychwanegu at sylwadau blaenorol neu i wneud sylwadau newydd ar rannau o'r Cynllun Adnau gwreiddiol nad ydynt yn destun Newidiadau Materion sy'n Codi. Caiff unrhyw sylwadau o'r fath yn eu diystyru oherwydd fe ddylid fod wedi eu gwneud yn ystod cyfnodau cynharach o baratoi'r Cynllun.

1.5 Yn yr un modd, ni fydd unrhyw sylwadau a gafwyd ar ôl y dyddiad cau yn rhai fydd wedi cael eu gwneud yn briodol ac felly byddant yn cael eu hanwybyddu.

1.6 Ar ôl cwblhau'r Archwiliad, bydd yr Arolygwyr yn cyhoeddi Adroddiad a fydd yn nodi unrhyw newidiadau a fydd rhaid i'r Cyngor eu gwneud i'r Cynllun ac yn amlinellu'r rhesymau amdanynt. Bydd yr argymhellion yn Adroddiad yr Arolygwyr yn rhwymol ar y Cynghorau, a rhaid derbyn y newidiadau a argymhellwyd gan yr Arolygwyr.

## 2. Sut i wneud Sylwadau am y Newidiadau Materion sy'n Codi.

2.1 Gallir cyflwyno sylwadau am y Newidiadau yn ystod y cyfnod ymgynghori un ai:

- Ebost: polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru
- Yn y post i: Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Mon, Llawr 1af Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor, Ffordd Gwynedd, Bangor, Gwynedd LL57 1DT

2.2 Mae'n rhaid cyflwyno sylwadau ysgrifenedig erbyn diwedd y cyfnod ymgynghori, h.y. **hanner nos 9fed Mawrth 2017**, i fod yn briodol. Gofynnir i chi ddefnyddio ffurflen sylwadau, sydd ar gael i'w lawr lwytho oddi ar wefannau'r Cynghorau, llyfrgelloedd cyhoeddus, Siop Gwynedd (Caernarfon, Pwllheli & Dolgellau), prif swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni, ac yn swyddfa'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Mon ym Mangor. Mae'r ffurflen yn gwneud yn siŵr eich bod yn rhoi'r wybodaeth fydd y Cynghorau a'r Arolygwyr ei angen er mwyn ystyried eich sylwadau. Dyma linc i wefannau'r Cynghorau:

www.ynysmon.gov.uk/cdll
www.gwynedd/llyw.cymru/cdll

Dewiswch y dudalen 'Archwiliad Annibynnol' i gael y ffurflen, gwybodaeth arall a dogfennau.

## 3. Y Gofrestr o Newidiadau Materion sy'n Codi

3.1 Mae'r Gofrestr Materion sy'n Codi yn rhoi manylion y newidiadau perthnasol sydd yn deillio o'r Archwiliad.

3.2 Er hwylustod, nodir y newidiadau yn y Gofrestr yn yr un drefn yn y Cynllun Adnau.

3.3 O fewn y Gofrestr, dangosir y newidiadau yn y ddau ddull canlynol:

- Lle mae testun newydd yn cael ei roi i mewn neu newidiadau yn cael eu gwneud i destun presennol, dangosir hyn mewn print **bras a dwy linell oddi tano,** e.e. **newid**
- Lle cynigir testun i'w dileu, dangoswyd hyn gan linell drwodd, e.e. ~~newid~~

3.4 Ar gyfer pob Newid Mater sy'n Codi, mae'r gofrestr yn rhoi'r manylion canlynol:

- **Rhif Newidiadau Materion sy'n Codi (NMC)**: rhif cyfeirnod unigryw o'r Newid Materion sy'n Codi, e.e. NMC 23;

.

- **Polisi/ Para/ Map**: cyfeiriad at y Polisi, Paragraff, rhan neu Fap yn y Cynllun lle gwelir y newid, e.e. PS 15;

- **Newidiadau Materion sy'n Codi**: cyflwyniad byr i'r newid a gynigir, ac yna manylion y newid gan ddefnyddio dulliau a ddisgrifiwyd ym mharagraff 4.3 uchod, oni bai y bydd y newid yn effeithio ar bennod gyfan neu gyfres sylweddol o baragraffau. Yn y mathau hyn o achosion mae'r testun rhagarweiniol yn disgrifio'r newid(iadau) arfaethedig ac yn cyfeirio at y Cynllun Cyfansawdd.

3.5 Mae rhai o'r newidiadau a nodir yn y gofrestr yn ei gwneud yn ofynnol i fapio newidiadau i Fapiau Cynigion neu Gyfyngiadau a nodwyd y rhain fel NMCMap yn y ddogfen yma. Mae'r golofn Newid Materion sy'n Codi yn y gofrestr hon yn darparu testun rhagarweiniol byr a map i ddangos y newidiadau neu mae'r map mewn Atodiad i'r Gofrestr. Fel gyda'r newidiadau arfaethedig i'r Datganiad Ysgrifenedig, mae pob **NMCMap** wedi cael rhif unigryw i alluogi eu hadnabod yn rhwydd a gwneud sylw arno. Gall y lliwiau neu gysgod a ddefnyddir newid yn y fersiwn cyhoeddedig terfynol y Map Cynigion unwaith y caiff y cynllun ei fabwysiadu.

3.6 Pan fydd Newid Materion sy'n Codi yn cyflwyno polisi neu baragraff newydd, dileu'r polisi neu baragraff, neu'n cynnig i ad-drefnu polisïau a pharagraffau, bydd ail-rifo'r holl bolisïau dilynol neu baragraffau yn digwydd cyn y cynhyrchir y Cynllun terfynol. Ar hyn o bryd, mae rhifau polisi a pharagraff yn aros yr un fath fel y dangosir yn y Cynllun Adnau, sy'n ymgorffori y newidiadau â ffocws. Mae'r polisïau a pharagraffau newydd a ymgorfforir fel Newidiadau Materion sy'n Codi yn cynnwys ôl-ddodiad, e.e. 'a', 'b'.

## 4. Beth sy'n digwydd nesaf

4.1 Caiff pob sylw a dderbynnir erbyn y dyddiad cau (a wnaed yn briodol) eu hanfon at yr Arolygwyr ar gyfer ystyriaeth. Cyn gynted â phosibl ar ôl y dyddiad cau cyhoeddir copïau o'r sylwadau (wedi ei golygu) yn Llyfrgell yr Archwiliad. Mae Arolygwyr wedi gofyn i'r Cynghorau baratoi adroddiad i ymateb i'r sylwadau, a gaiff ei gyhoeddi yn Llyfrgell yr Archwiliad. Ni fydd y Cynghorau yn ymateb yn uniongyrchol i unigolion sydd wedi cyflwyno sylwadau.

4.2 Ar ôl ystyried y sylwadau, bydd yr Arolygwyr yn penderfynu wedyn os oes angen Sesiynau Gwrandawiad pellach. Bydd Swyddog Rhaglen yr Archwiliad yn cysylltu gyda'r Cynghorau a'r rhai a gyflwynodd sylwadau i roi gwybod iddynt am y mater. Cyhoeddir manylion y Sesiynau Gwrandawiadau yn Llyfrgell yr Archwiliad.

4.3 Ar ôl cwblhau'r Archwiliad, bydd yr Arolygwyr yn cyflwyno adroddiad i'r Cynghorau, a fydd yn amlinellu pa newidiadau y mae'n rhaid i'r Cynghorau wneud i'r Cynllun gan gynnwys ei ymresymiad ar eu cyfer.

4.4 Bydd yr argymhellion yn adroddiad yr Arolygwyr yn rhwymol a rhaid i'r Cynghorau dderbyn y newidiadau a argymhellwyd gan yr Arolygwyr.

4.5 Bydd yr adroddiad yn cael ei chyhoeddi ar wefannau'r Cynghorau. Cynhelir cyfarfod o'r Cynghorau i fabwysiadu'r Cynllun.

**5. Gwybodaeth bellach**

5.1 Gallir derbyn gwybodaeth bellach am yr ymgynghoriad ynglŷn â'r Newidiadau Materion sy'n codi neu unrhyw agwedd o broses y Cynllun gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Mon trwy e-bost: polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru <mailto:polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru> neu trwy ffonio **[01286] 685003/ 679668 neu [01766] 77100** a gofyn i gael siarad gyda swyddog yn yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Mon .

5.2 Fel arall gallwch yrru llythyr i'r cyfeiriad canlynol:

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Mon,

Llawr 1af Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor,

Ffordd Gwynedd,

Bangor,

GWYNEDD LL57 1DT

# ADRAN 8


# COFRESTRAU NEWIDIADAU MATERION SY'N CODI

## Dogfen Mapiau Cynigion


**(Mae rhannau 1-7 ar gael i'w archwilio mewn dogfen ar wahân)**


**Cofrestr Newidiadau Materion sy'n Codi (NMC): Mapiau Cynigion**

| Rhif NMC | | Map | Newid sy'n Codi |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 358 | Map Mewnosod 1 | ***Diwygio ffin Ganol Tref Bangor i gynnwys adeiladau ychwanegol:*** |




| Rhif NMC | | Map | Newid sy'n Codi |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 359 | Map Mewnosod 2 | ***Diwygio'r nodiant safle cyflogaeth Porthladd Caergybi fel ei fod yn dangos y statws yn glir yn unol a'r hyn a nodir ym Mholisi CYF 1:*** |


| Rhif NMC | | Map | Newid sy'n Codi |
|---|---|---|---|
| | | |  |


| Rhif NMC | | Map | Newid sy’n Codi |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 360 | Map Mewnosod 4 | ***Diwygio'r nodiant safle cyflogaeth Fferm Lledwigan, Llangefni a thir yr Hufenfa, Llangefni fel ei fod yn dangos y statws yn glir yn unol a’r hyn a nodir ym Mholisi CYF 1:***   |


| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 361 | Map Mewnosod 4 | ***Diwygio'r Map Mewnosod i gynnwys Ardal Chwilio Fferm Solar PV Llangefni (S3) a restrir ym Mholisi newydd ADN 1A (NMC110-114):*** |





| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 362 | Map Mewnosod 8 | ***Diwygio'r nodiant safle cyflogaeth Adwy'r Hafan i gyd-fynd â Pholisi CYF 1A  newydd (NMC 147 & NMC154):*** |





| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 363 | Map Mewnosod 8 | ***Diwygio'r ffin ddatblygu ar hyd Stryd Llyn i gynnwys tir ychwanegol i hwyluso datblygiad preswyl:***  |


| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 364 | Map Mewnosod 8 | ***Diwygio ffin ddatblygu Pwllheli i eithrio rhan o'r safle o fewn y ffin ddatblygu.***  |

| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 365 | Map Mewnosod 9 | ***Diwygio'r ffin Ganol Tref Biwmares i gynnwys adeiladau ychwanegol:***  |


| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 366 | Map Mewnosod 13 | ***Diwygio nodiant safleoedd cyflogaeth Gaerwen i egluro statws y safleoedd ym Mholisi CYF1:***<br>• ***C30 - Stad Ddiwydiannol Gaerwen - Safle a Warchodir***<br>• ***C34 - Stad Ddiwydiannol Gaerwen - Dynodiad Cyflogaeth***<br>• ***C35 - Parc Gwyddoniaeth Menai - Dynodiad Cyflogaeth***<br>• ***C(wg)38 - Estyniad i Stad Ddiwydiannol Gaerwen - Safle Wrth Gefn***<br> |


| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 367 | Map Mewnosod 26 | ***Eithrio rhan o Stad Ddiwydiannol Griffin, Penrhyndeudraeth o'r Safle Cyflogaeth wedi'i Warchod mewn cydymffurfiaeth â NMC 148:***   |

| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 368 | Map Mewnosod 39 | ***Diwygio'r nodiant safle cyflogaeth Tir ger yr Orsaf Petrol, Y Ffôr fel ei fod yn dangos statws y safleoedd ym Mholisi CYF 1 yn glir :***   |

| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 369 | | ***Diwygio'r Map Mewnosod i gynnwys Ardal Chwilio Ffermydd Solar PV Caergeiliog (S10 a S11) a restrir ym Mholisi newydd ADN 1A (NMC 110-114):***   |


| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 370 | Map Mewnosod 125 | ***Dileu Map Mewnosod 125 - Capel Parc er mwyn cydymffurfio gyda'r newidiadau materion sy'n codi ym Mholisi TAI18 (NMC268):*** |




| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 371 | Map Mewnosod 130 | *Dileu Map Mewnosod 130- Elim er mwyn cydymffurfio gyda'r newidiadau materion sy'n codi ym Mholisi TAI18 (NMC268):*<br><br> |


<table>
<tr>
<td>NMC MAP</td>
<td>372</td>
<td>Map Mewnosod 137</td>
<td>

***Dileu Map Mewnosod 137 - Llanddeusant er mwyn cydymffurfio gyda'r newidiadau materion sy'n codi ym Mholisi TAI18 (NMC268):***





</td>
</tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 373 | Map Mewnosod 138 | *Dileu Map Mewnosod 138 - Llaneilian er mwyn cydymffurfio gyda'r newidiadau materion sy'n codi ym Mholisi TAI18 (NMC268):*  |


| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 374 | Map Mewnosod 140 | ***Dileu Map Mewnosod 140 - Llanfairynghonwy er mwyn cydymffurfio gyda'r newidiadau materion sy'n codi ym Mholisi TAI18 (NMC268):***  |


<table>
<tr><td>NMC MAP</td><td>375</td><td>Map Mewnosod 146</td><td>


***Dileu Map Mewnosod 146 - Mynydd Mechell er mwyn cydymffurfio gyda'r newidiadau materion sy'n codi ym Mholisi TAI18 (NMC268):***




</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 376 | Map Mewnosod 148 | ***Dileu Map Mewnosod 148 - Penygroes er mwyn cydymffurfio gyda'r newidiadau materion sy'n codi ym Mholisi TAI18 (NMC268):***  |


| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 377 | Map Mewnosod 150 | ***Dileu Map Mewnosod 150 - Pengorffwysfa er mwyn cydymffurfio gyda'r newidiadau materion sy'n codi ym Mholisi TAI18 (NMC268):***   |

| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 378 | Map Mewnosod 173 | ***Dileu Map Mewnosod 173 - Bryn Eglwys er mwyn cydymffurfio gyda'r newidiadau materion sy'n codi ym Mholisi TAI18 (NMC268):***<br> |


| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 379 | Map Mewnosod 174 | ***Dileu Map Mewnosod 174 - Bwlchtocyn er mwyn cydymffurfio gyda'r newidiadau materion sy'n codi ym Mholisi TAI18 (NMC268):*** |





<table>
<tr>
<td>NMC MAP</td>
<td>380</td>
<td>Map Mewnosod 178</td>
<td>Dileu Map Mewnosod 178 - Capel Uchaf er mwyn cydymffurfio gyda’r newidiadau materion sy’n codi ym Mholisi TAI18 (NMC268):





</td>
</tr>
</table>


| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 381 | Map Mewnosod 179 | *Dileu Map Mewnosod 179- Ceidio er mwyn cydymffurfio gyda'r newidiadau materion sy'n codi ym Mholisi TAI18 (NMC268):*  |

| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 382 | Map Mewnosod 182 | ***Dileu Map Mewnosod 182 - Dinas (Llyn) er mwyn cydymffurfio gyda'r newidiadau materion sy'n codi ym Mholisi TAI18 (NMC268):***   |


| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 383 | Map Mewnosod 192 | ***Dileu Map Mewnosod 192 - Llangwnadl er mwyn cydymffurfio gyda'r newidiadau materion sy'n codi ym Mholisi TAI18 (NMC268):***   |

| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 384 | Map Mewnosod 193 | ***Dileu Map Mewnosod 193- Llaniestyn er mwyn cydymffurfio gyda'r newidiadau materion sy'n codi ym Mholisi TAI18 (NMC268):***   |


| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 385 | Map Mewnosod 198 | ***Dileu Map Mewnosod 198 - Machroes er mwyn cydymffurfio gyda'r newidiadau materion sy'n codi ym Mholisi TAI18 (NMC268):***  |


| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 386 | Map Mewnosod 199 | *Dileu Map Mewnosod 199 - Maes Tryfan er mwyn cydymffurfio gyda'r newidiadau sy'n codi ym Mholisi TAI18 (NMC268):*  |


<table>
<tr>
<td>NMC MAP</td>
<td>387</td>
<td>Map Mewnosod 205</td>
<td>Dileu Map Mewnosod 205 - Pencaenewydd er mwyn cydymffurfio gyda’r newidiadau sy’n codi ym Mholisi TAI18 (NMC268):



</td>
</tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 388 | Map Mewnosod 213 | ***Dileu Map Mewnosod 213 - Rhos Isaf er mwyn cydymffurfio gyda'r newidiadau sy'n codi ym Mholisi TAI18 (NMC268):*** |




| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 389 | Map Mewnosod 214 | ***Diwygio'r Map Mewnosod i gynnwys Ardal Chwilio Fferm Solar PV Llangefni (S3) a restrir ym Mholisi newydd ADN 1A (NMC 110-114):***   |

| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 390 | Map Mewnosod 215 | ***Dileu Map Mewnosod 215 - Rhydyclafdy er mwyn cydymffurfio gyda'r newidiadau sy'n codi ym Mholisi TAI18 (NMC268):***  |


| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 391 | Map Mewnosod 217 | ***Dileu Map Mewnosod 217 - Sling er mwyn cydymffurfio gyda’r newidiadau sy’n codi ym Mholisi TAI18 (NMC268):***   |


<table>
<tr>
<td>NMC MAP</td>
<td>392</td>
<td>Map Mewnosod i</td>
<td>


***Diwygio'r nodiant safle cyflogaeth hen safle Shell, Rhosgoch fel ei fod yn dangos statws y safleoedd ym Mholisi CYF 1 yn glir :***





</td>
</tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 393 | Map Mewnosod V | *Diwygio'r Map Mewnosod i gynnwys Ardal Chwilio Ffermydd Solar PV Mona (Gwalchmai) (S6 & S7) a restrir ym Mholisi newydd ADN 1A (NMC 110-114):*   |

| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 394 | Map Mewnosod Newydd | ***Cynnwys Map Mewnosod newydd i ddangos ffiniau'r Safle Teithwyr arfaethedig Penhesgyn sydd wedi ei ddynodi ym Mholisi TAI 12 (gweler NMC 240):***   |

| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 395 | Map Cyfyngiadau | ***Diwygio'r Map Mewnosod i gynnwys Ardal Chwilio Ffermydd Solar PV Pentraeth (S46 & S5) a restrir ym Mholisi newydd ADN 1A (NMC 110-114):***   |

| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 396 | Map Cyfyngiadau | ***Diwygio'r Map Mewnosod i gynnwys Ardal Chwilio Ffermydd Solar PV Elim/Llantrisant (S8 & S9) a restrir ym Mholisi newydd ADN 1A (NMC 110-114):*** |




| | | | |
|---|---|---|---|
| NMC MAP | 397 | Map Cynigion | ***Dangos y gwelliannau ffordd i'r A5025 ar y mapiau cynigion mewn cydymffurfiaeth a'r Newid Materion sy'n codi (NMC68) i Bolisi TRA1 - gweler Atodiad 2 i'r rhestr yma o Newidiadau Materion sy'n Codi.*** |
| NMC MAP | 398 | Map Cynigion | ***Ail-leoli'r haen sydd yn dangos yr Ardal Tirwedd Arbennig o'r Map Cyfyngiadau i'r Map Cynigion - gweler atodiad 3 i'r Rhestr yma o Newidiadau Materion sy'n Codi. Fe fydd yr haen yn cael ei gynnwys yn fersiwn papur ac ar-lein o'r Cynllun wedi ei fabwysiadu.*** |
| NMC MAP | 399 | Map Cynigion | ***Ail-leoli'r haen sydd yn dangos yr Ardal Gwarchod Mwynau o'r Map Cyfyngiadau i'r Map Cynigion a chynnwys yr Ardal Gwarchod Mwynau Mynydd Parys (Metelifferaidd) ar y Mapiau Cynigion mewn cydymffurfiaeth a'r Newid Materion sy'n Codi (NMC298) i Bolisi MWYN1 - gweler Atodiad 4 i'r rhestr yma o'r Newid Materion sy'n Codi. Fe fydd yr haen yn cael ei gynnwys yn fersiwn papur ac ar-lein o'r Cynllun wedi ei fabwysiadu.*** |

## Atodiad 2



Gwelliannau i'r A5025 - Map Cynigion
A5025 Improvements - Proposals Map
© Hawlfraint y Goron / Crown Copyright
Cyngor Gwynedd - 100023387


**Atodiad 3**




| | | |
|---|---|---|
| 1 | Gorllewin Llyn / Western Llyn | Gwynedd |
| 2 | Porthmadog / Tremadog | Gwynedd |
| 3 | Ardal Bala Hinterland | Gwynedd |
| 4 | Corris | Gwynedd |
| 5 | Abermaw / Barmouth | Gwynedd |
| 6 | North-Western Fringes of Snowdonia | Gwynedd |
| 7 | Y Foryd | Gwynedd |
| 8 | Stad y Faenol / Vaynol Estate | Gwynedd |
| 9 | Aberglaslyn | Gwynedd |
| 10 | Mynydd Bangor Mountain | Gwynedd |
| 11 | Cors Malltraeth Marsh | Môn / Anglesey |
| 12 | Parciau | Môn / Anglesey |
| 13 | Mynydd Parys Mountain | Môn / Anglesey |
| 14 | Mynydd Mechell | Môn / Anglesey |
| 15 | De Ddwyrain Môn / South East Anglesey | Môn / Anglesey |
| 16 | Llanedwen | Môn / Anglesey |

## Atodiad 4


Ardaloedd Gwarchod Mwynau (Ynys Môn) - Map Cynigion
Mineral Safeguarding Areas (Anglesey) - Proposals Map
© Hawlfrant y Goron / Crown Copyright
Cyngor Gwynedd - 100023387


Ardaloedd Gwarchod Mwynau (Gwynedd) - Map Cynigion
Mineral Safeguarding Areas (Gwynedd) - Proposals Map
© Hawlfraint y Goron / Crown Copyright
Cyngor Gwynedd - 100023387